

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458
(LLANERFYL, POWYS) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn tra bo gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, yn Llanerfyl yn Sir Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, mewn cysylltiad â'r gwaith neu ar gyfer gwaith graeanu'r gaeaf), rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd yr U2348 ar ochr ddwyreiniol Pont Llanerfyl hyd at ei chyffordd â ffordd yr C2031 ar ochr orllewinol Pont Llanerfyl.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o ben dwyreiniol y darn o'r ffordd sydd ar gau fydd mynd ar yr A458 tua'r dwyrain i Gylchfan Raven, y Trallwng, y B4381 Brook Street, yr A458 Church Street i Salop Road, Mill Lane tua'r de-ddwyrain i Smithfield Road, yr A483 tua'r de-orllewin i'r Drenwydd, yr A483 tua'r de i Gylchfan Dolfor, yr A489 Ffordd Osgoi y Drenwydd tua'r gorllewin gan barhau tua'r gorllewin ar yr A489 i Gaersŵs ac ar yr A470 tua'r gogledd i Fallwyd i ailymuno â'r A458 tua'r dwyrain. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o ben gorllewinol y darn o'r ffordd sydd ar gau.

Bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym ar 30 Ionawr 2023 ac yn weithredol dros nos (o 19:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) hyd bore 2 Chwefror 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A458 TRUNK ROAD (LLANERFYL,
POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary whilst works are undertaken on or near the A458 trunk road at Llanerfyl in the County of Powys.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services, in connection with the works or for winter gritting), from proceeding on the length of the A458 trunk road that extends from its junction with the U2348 road at the eastern side of Llanerfyl Bridge to its junction with the C2031 road at the western side of Llanerfyl Bridge.

The alternative route for westbound traffic from the eastern extent of the closure will be via the eastbound A458 to Raven Roundabout, Welshpool, the B4381 Brook Street, A458 Church Street onto Salop Road, south-eastbound Mill Lane onto Smithfield Road, the south-westbound A483 to Newtown, the southbound A483 to Dolfor Roundabout, the westbound A489 Newtown Bypass continuing westbound on the A489 to Caersŵs and on the northbound A470 to Mallwyd to re-join the A458 eastbound. Vice versa for eastbound traffic from the western extent of the closure.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will come into force on 30 January 2023 and operate overnight (19:00 hours to 06:00 hours) until the morning of the 2 February 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

